

Adroddiad blynyddol ar ddiogelu cleientiaid 2022/23

Cyhoeddwyd 20 Rhagfyr 2023

[English \[https://higher-rights.sra.org.uk/sra/research-publications/client-protection-2022-23/\]](https://higher-rights.sra.org.uk/sra/research-publications/client-protection-2022-23/) Cymraeg

Gwybodaeth am ein gwaith diogelu cleientiaid

Rhan allweddol o'n rôl o ran helpu i fagu hyder ac ymddiriedaeth mewn gwasanaethau cyfreithiol yw camu i mewn lle bo angen i ddiogelu cleientiaid a'r cyhoedd yn ehangach.

Mae ymyriad yn golygu ein bod yn cymryd arian a ffeiliau cleientiaid oddi wrth bractis cwmni neu gyfreithiwr. Mae hyn er mwyn cadw'r arian a'r ffeiliau'n ddiogel. Bydd hyn i bob pwrpas yn cau'r cwmni neu bractis y cyfreithiwr gan na fyddant yn gallu gweithredu mwyach. Byddwn yn gwneud hyn os byddwn yn credu bod pobl mewn perygl o gael gwasanaethau cyfreithiol gan gyfreithiwr anonest, neu os yw'n angenrheidiol fel arall i ddiogelu buddiannau cleientiaid.

A phan fydd pobl yn ymddiried eu harian i gyfreithwyr, mae angen iddynt wybod y byddant yn cael eu diogelu rhag colled ariannol os bydd pethau'n mynd o chwith. Er enghraifft, gallai hyn fod mewn amgylchiadau lle mae esgeuluster, twyll neu anonestrwydd arall yn digwydd, neu lle mae cwmni cyfreithiol yn mynd â'i ben iddo.

Rydym yn gwneud yn siŵr bod gan y cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio yswiriant indemniad proffesiynol er mwyn i gleientiaid allu gwneud hawliadau am golledion os yw cwmni wedi bod yn esgeulus. Rydym hefyd yn gweithredu ein trefniadau diogelu ariannol ein hunain: gall y gronfa iawndal wneud taliadau i aelodau'r cyhoedd a busnesau bach i gymryd lle arian a gymerwyd neu a ddefnyddiwyd yn amhriodol gan eu cyfreithiwr. Fel arfer, mae pobl yn gwneud hawliad i'r gronfa ar ôl i ni ymyrryd mewn cwmni cyfreithiol roeddent yn ei ddefnyddio.

Rydym yn rheoli'r gronfa, ac mae cwmnïau cyfreithiol a chyfreithwyr yn talu i mewn iddi drwy gyfraniad blynyddol. Rydym yn ceisio adennill costau ar ôl cynnal ymyriad mewn cwmnïau, a hawliadau llwyddiannus a wnaed ar ein cronfa iawndal, drwy amrywiaeth o lwybrau, gan gynnwys gan yswirwyr cwmni.

Gair am yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad yn darparu data ar ein gwaith yn y maes hwn ac yn tynnu sylw at dueddiadau allweddol dros gyfnod o saith mlynedd. Mae hyn yn cynnwys data newydd ar gyfer y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Hydref 2023*. [Mae'n rhan o gyfres o adroddiadau sy'n ymdrin â'n gwaith ar gyfer blwyddyn 2022/23. \[https://higher-rights.sra.org.uk/sra/research-publications/corporate-reports-2022-23/\]](https://higher-rights.sra.org.uk/sra/research-publications/corporate-reports-2022-23/)

Dyma'r meysydd y mae'n ymdrin â nhw:

- ymyriadau (niferoedd, rhesymau ac astudiaethau achos)
- y gronfa iawndal (taliadau, hanes hawliadau a pham ein bod yn gwneud taliadau)
- ein hadolygiad o ddiogelu defnyddwyr
- adennill costau.

Nid yw'r adroddiad hwn yn rhoi manylion ynghylch ein perfformiad gweithredol yn y maes hwn – ceir hynny ar wahân drwy [ddiweddariadau rheolaidd i'n Bwrdd drwy ein cerdyn sgorio cytbwys \[https://higher-rights.sra.org.uk/sra/how-we-work/our-board/public-meetings/archive/\]](https://higher-rights.sra.org.uk/sra/how-we-work/our-board/public-meetings/archive/).

* Sylwch fod ein blwyddyn fusnes yn rhedeg o 1 Tachwedd i 31 Hydref. Oni nodir yn wahanol, mae'r ffigurau'n ymwneud â 31 Hydref 2023 – diwedd y flwyddyn adrodd.

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

- Mae'n ymddangos bod y risgiau yn y farchnad gyfreithiol yn newid. Rydym wedi gweld newid diweddar yn nifer a maint yr ymyriadau rydym yn eu cynnal.
- Cododd ymyriadau i 65 yn 2022/23, mwy na dwywaith cynifer â'r flwyddyn flaenorol (25). Yn ystod y blynyddoedd diwethaf hefyd, rydym wedi delio â methiannau mewn cwmnïau mwy. Mae hyn yn cynnwys ein hymyriad mwyaf erioed – yn y cwmni cyfreithiol Axiom Ince – yn 2023. Roedd hyn o ganlyniad i dros £60m o arian cleientiaid ar goll oherwydd amheuaeth o dwyll.
- Mae'r cynnydd ym maint rhai o'n hymyriadau wedi golygu bod y gronfa iawndal o dan bwysau cynyddol. Mae cyfanswm taliadau'r gronfa iawndal wedi codi – yn 2022/23 dyma ein taliadau uchaf yn ystod y saith mlynedd diwethaf, sef £41m.
- Yn ystod y flwyddyn hon, roedd tua dwy ran o dair o'r taliadau hyn (dros £27m) yn ymwneud â'n [hymyriad yng nghwmnïau cyfreithiol y Metamorph Group \[https://higher-rights.sra.org.uk/sra/news/press/2023-press-releases/metamorph-information-jan-2023/\]](https://higher-rights.sra.org.uk/sra/news/press/2023-press-releases/metamorph-information-jan-2023/), a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Ionawr 2023. Mae'r gwaith hwn yn parhau – hyd yma (Awst 2024), rydym bellach wedi talu mwy na £31m mewn hawliadau sy'n ymwneud â Metamorph, ac rydym wedi gallu adennill £30.5m o gyfrifon Metamorph.
- Mae'r gronfa'n chwarae rhan hollbwysig o ran diogelu'r cyhoedd a chynnal ymddiriedaeth yn y proffesiwn. Rydym wedi gallu lleihau'r cyfraniadau i'r gronfa'n raddol dros y pum mlynedd diwethaf, ond mae'r duedd o gynydd mewn hawliadau, sy'n cael ei sbarduno gan ymyriadau mawr diweddar, yn golygu bod angen i



ni gynyddu cyfraniadau'r proffesiwn i'r gronfa. Bydd hyn yn ein galluogi i ailadeiladu cronfeydd wrth gefn y gronfa dros y ddwy i dair blynedd nesaf.

- Wrth ystyried y risg newidiol yn y sector, rydym hefyd wedi lansio [ein hadolygiad o ddiogelu defnyddwyr](https://higher-rights.sra.org.uk/sra/consultations/discussion-papers/consumer-protection-review/1) [https://higher-rights.sra.org.uk/sra/consultations/discussion-papers/consumer-protection-review/1]. Mae'n canolbwyntio ar ddau brif faes – sut i leihau'r risgiau bod rhywbeth yn mynd o'i le mewn cwmni cyfreithiol rheoledig sy'n achosi niwed i ddefnyddwyr, yn enwedig mewn perthynas ag arian cleientiaid, a'n trefniadau cronfa iawndal. Yn dilyn ymgysylltu helaeth ar y materion hyn, ym mis Tachwedd 2024, fe wnaethom [gyhoeddi ymgynghoriad](https://higher-rights.sra.org.uk/sra/news/press/client-money-consultation-october-2024/1) [https://higher-rights.sra.org.uk/sra/news/press/client-money-consultation-october-2024/1] ynghylch sut a phryd mae cwmnïau cyfreithiol yn delio ag arian cleientiaid, a sut mae'r arian hwn yn cael ei ddiogelu.

[Open all \[# \]](#)

Ymyriadau yn y saith mlynedd diwethaf

Mae nifer yr ymyriadau wedi amrywio dros y saith mlynedd diwethaf, a bu cynnydd mawr yn nifer yr ymyriadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fe wnaethom fwy na dwywaith yn fwy o ymyriadau (65) yn 2022/23 na'r flwyddyn flaenorol (25).

Un rheswm posibl dros hyn yw effeithiau pandemig Covid-19. Roedd y pecynnau cymorth a gynigiwyd yn ystod y pandemig yn darparu ateb ariannol tymor byr i rai cwmnïau a oedd fel arall yn ei chael hi'n anodd, ac a allai fod wedi wynebu ymyriad yn ystod y cyfnod hwn. Ar ôl y pandemig, pan oedd y cwmnïau hynny'n profi mwy o anhawster ariannol, rydym wedi camu i mewn a chyflawni ymyriad os nad oedd yn bosibl cau'n drefnus. Mae patrwm diweddar hefyd o orfod gweithredu ymyriad mewn cwmnïau mwy, lle mae effaith ar ddefnyddwyr yn llawer mwy. [Mae'r adran ar ein hadolygiad o ddiogelu defnyddwyr yn cynnwys rhagor o wybodaeth am beth rydym yn ei wneud i fynd i'r afael â'r mater hwn. \[#Consumer \]](#)

Blwyddyn Nifer yr ymyriadau

2016/17	50
2017/18	33
2018/19	37
2019/20	40
2020/21	26
2021/22	25
2022/23	65

Rhesymau dros ymyriadau

Rydym yn cyfeirio at seiliau statudol wrth benderfynu a ddylid gweithredu ymyriad mewn practis cyfreithiwr neu gwmni. Gallwn gyfeirio at un neu fwy ohonynt os bydd ymyriad yn digwydd. Y tair sail statudol mwyaf cyffredin lle rydym yn penderfynu cynnal ymyriad yw: i ddiogelu buddiannau cleientiaid, achosion difrifol o dorri ein rheolau ac amheuaeth o anonestrwydd.

Astudiaeth achos ymyriad - Axiom Ince

Ym mis Awst 2023, fe wnaethom ymyrryd mewn ymarfer unig gyfranddaliwr cwmni cyfreithiol mawr, Axiom Ince. Gwnaethom hyn ar ôl amau anonestrwydd a thorri ein Rheolau Cyfrifon. Yn ogystal â chau eu hymarfer personol, fe wnaethom gymryd camau ymyrryd gyda dau o'r cyfarwyddwyr eraill hefyd a oedd yn gweithio yn y cwmni. Roeddem yn amcangyfrif bod dros £60m o arian cleientiaid ar goll. Roedd natur yr anonestrwydd a amheuir yn soffistigedig ac yn cynnwys datganiadau banc a llythyrau ffug.

Roedd yr arian coll yn golygu ei bod yn annhebygol y byddai'r cwmni cyfan yn gallu parhau i weithredu yn y tymor hir. Cyhoeddodd y cwmni ei fwriad i alw'r gweinyddwyr i mewn ar 1 Hydref 2023. Ni fyddai'r cwmni'n gallu darparu gwasanaethau cyfreithiol yn effeithiol i'w gleientiaid sy'n weddill mwyach, felly fe wnaethom gamu i mewn i'w diogelu, gan ymyrryd yn y cwmni ar 3 Hydref 2023.

[Fe wnaethom hefyd atgyfeirio'r mater at yr asiantaethau gorfodi'r gyfraith perthnasol, ac mae'r Swyddfa Twyll Difrifol yn cynnal ymchwiliad ac wedi arestio unigolion.](#) [https://higher-rights.sra.org.uk/sra/news/press/2023-press-releases/axiom-ince-intervention-and-impacts/1] Rydym wedi bod yn ymgysylltu â'r Swyddfa Twyll Difrifol wrth iddi fwrw ymlaen â'i hymchwiliad. Rydym wedi cytuno â'r Swyddfa i ohirio ein hymchwiliad i'r mater hwn nes bydd wedi cwblhau ei hymchwiliad. Roeddem eisoes wedi ceisio gweithredu i ddiogelu'r cyhoedd yn y cyfamser drwy gyfyngu ar ymarferion unigolion allweddol.

Dyma ein hymyriad mwyaf erioed ac rydym yn parhau i ddelio â'i effeithiau. Rydym yn parhau i weithio drwy'r hawliadau a wnaed i'n cronfa iawndal, gan wneud taliadau i unigolion a busnesau sydd wedi colli eu harian.

Mae hyd a lled yr ymyriad a'r arian a gollwyd – ochr yn ochr ag ymyriadau amlach a mwy yn y blynyddoedd diwethaf – wedi codi cwestiynau ynghylch mater diogelu defnyddwyr a rôl y gronfa iawndal, sy'n cael ei hariannu gan gyfraniadau cyfreithwyr a chwmnïau cyfreithiol. [Ddechrau 2024, fe wnaethom gyhoeddi ein hadolygiad o ddiogelu defnyddwyr, sy'n ystyried amrywiaeth o faterion.](#) [https://higher-rights.sra.org.uk/home/hot-topics/consumer-protection-review/1] Mae'r rhain yn cynnwys a allwn wella sut rydym yn canfod risgiau, a oes gennym y cydbwysedd cywir ar waith i ddiogelu arian cleientiaid, a'r gronfa iawndal. Yn dilyn ymgysylltu helaeth ar y materion hyn, ym mis Tachwedd 2024, fe wnaethom [gyhoeddi ymgynghoriad](#) [https://higher-

rights.sra.org.uk/sra/news/press/client-money-consultation-october-2024/ ynghylch sut a phryd mae cwmnïau cyfreithiol yn delio ag arian cleientiaid, a sut mae'r arian hwn yn cael ei ddiogelu.

Mae'r rheoleiddiwr goruchwylio ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol, y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol, wedi cynnal adolygiad annibynnol o'r digwyddiadau sydd wedi arwain at ymyriad Axiom Ince. Fe gyhoeddodd ganlyniadau ein hadolygiad yn Hydref 2024, ac rydym [wedi ymateb](https://higher-rights.sra.org.uk/sra/news/press/axiom-ince-update-october-2024/) (<https://higher-rights.sra.org.uk/sra/news/press/axiom-ince-update-october-2024/>), gan gynnwys pwysleisio sut rydym wedi dod o hyd i wersi a ddysgwyd o'r achos hwn yn gyflym yn 2023, wedi tynhau prosesau ac wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r materion ehangach y mae'r adroddiad yn eu codi, fel sut gallwn ddiogelu arian cleientiaid yn well.

Astudiaeth achos ymyriadau - arferion mewnfudo

Yn 2023, fe wnaethom weithredu'n gyflym i ymyrryd a chau tri chwmni cyfreithiol. Gwnaethom hyn ar ôl clywed stori newyddion a oedd yn honni bod tri chyfreithiwr, pob un ohonynt yn ymarfer cyfraith mewnfudo yn eu priod gwmpnïau, wedi bod yn cynghori eu cleientiaid i gyflwyno hawliadau ffug am loches a hawliau dynol. Roeddent hefyd wedi bod yn codi gormod am waith.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r stori newyddion gudd a chynnal ein hymchwiliad ein hunain, fe wnaethom ymyrryd yn y cwmnïau, gan eu cau i bob pwrpas. Fe wnaethom hyn wythnos ar ôl i'r newyddion dorri yn y cyfryngau am y tro cyntaf. Ymyrrwyd ar sail amheuaeth o anonestrwydd a methiant i ddilyn ein rheolau. Cafodd tystysgrifau ymarfer y tri unigolyn eu hatal dros dro. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi gorchymyn adran 43 yn erbyn rhywun nad yw'n gyfreithiwr sy'n gweithio mewn pedwerydd cwmni cyfreithiol. Rydym wedi atgyfeirio'r cyfreithwyr at y Tribiwnlys Disgyblu Cyfreithwyr.

Y gronfa iawndal

Mae'r gronfa iawndal yn gyllidwr dewisol pan fetha popeth arall. Gall wneud taliadau lle mae arian wedi cael ei gymryd neu heb gael ei gyfrifo gan rywun rydym ni'n ei reoleiddio. Mewn rhai amgylchiadau, gall hefyd wneud taliadau lle dylai yswiriant indemniad cwmni fod wedi diogelu colled, ond nad oedd gan y cwmni bolisi ar waith.

Mae cwmnïau cyfreithiol a chyfreithwyr yn talu i'r gronfa iawndal drwy gyfraniad blynyddol. Bob blwyddyn, mae ein Bwrdd yn ystyried yn ofalus ac yn pennu'r cyfraniad i'r gronfa iawndal y mae'n rhaid i'r cwmnïau a'r unigolion rydym ni'n eu rheoleiddio ei dalu. [Mae egwyddorion sylfaenol o ran sut y pennir y lefelau cyfrannu](https://higher-rights.sra.org.uk/mysra/fees/compensation-fund-contribution-level-principles/) (<https://higher-rights.sra.org.uk/mysra/fees/compensation-fund-contribution-level-principles/>).

- y brif egwyddor fydd cynnal hyfywedd y gronfa
- byddwn yn sicrhau bod y cyfraniadau proffesiynol i'r gronfa mor hylaw â phosibl i'r rhai a reoleiddir gennym
- byddwn yn casglu'r cyfraniadau i'r gronfa mewn ffordd y gellir ei rheoli ar gyfer y rhai a reoleiddir gennym
- byddwn yn dryloyw ynghylch arian y gronfa a'i reolaeth.

Mae'r cyfraniadau'n ariannu'r taliadau a wneir, y cronfeydd wrth gefn rydym yn eu neilltuo ar gyfer hawliadau yn y dyfodol, a chostau delio â'r hawliadau eu hunain. Mae hyn yn cynnwys y gost o ymyrryd mewn cwmnïau lle mae arian a ffeiliau cleientiaid mewn perygl.

Ar ôl cadw cyfraniad y cyfreithiwr unigol yn £30 a lleihau ychydig ar gyfraniad y cwmni o £690 i £660 yn 2023/24, rydym wedi cynyddu cyfraniadau ar gyfer 2024/25. Bydd cyfraniadau unigol yn £90 a bydd cyfraniadau cwmni yn £2,220. Bydd hyn yn caniatáu i gronfeydd wrth gefn sy'n cael eu heffeithio'n sylweddol gan gynydd sylweddol yn nifer yr ymyriadau, a nifer yr hawliadau dros y 18 mis diwethaf, gael eu hailadeiladu dros y ddwy neu dair blynedd nesaf.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yn ein cyhoeddiad ar gyfraniadau'r gronfa iawndal ar gyfer 2024/25](https://higher-rights.sra.org.uk/sra/news/press/compensation-fund-pc-fees-2024/) (<https://higher-rights.sra.org.uk/sra/news/press/compensation-fund-pc-fees-2024/>).

Cyfraniad cyfreithiwr unigol Cyfraniad cwmni

2016/17	£32	£548
2017/18	£40	£778
2018/19	£90	£1,680
2019/20	£60	£1,150
2020/21	£50	£950
2021/22	£40	£760
2022/23	£30	£690
2023/24	£30	£660
2024/25	£90	£2,220

Taliadau'r gronfa iawndal yn y saith mlynedd diwethaf

Mae cyfanswm y taliadau rydym ni'n eu gwneud bob blwyddyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys nifer a natur yr ymyriadau rydym wedi'u cynnal, a allai fod wedi digwydd yn ystod y flwyddyn fusnes flaenorol mewn rhai achosion, a gwerth hawliadau unigol.



Roedd y taliadau a wnaed yn 2022/23 yn dod i gyfanswm o £41m. Roedd tua £27m o hyn yn ymwneud â'n hymyriad yng nghwmnïau cyfreithiol y [Metamorph Group](https://higher-rights.sra.org.uk/sra/news/press/2023-press-releases/metamorph-information-jan-2023/1) (<https://higher-rights.sra.org.uk/sra/news/press/2023-press-releases/metamorph-information-jan-2023/1>), a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Ionawr 2023. Gwnaethom hyn i ddiogelu buddiannau ein cleientiaid. Mae ein gwaith i dalu iawndal i unigolion a busnesau a oedd yn dal eu harian yng nghyfrif cleient Metamorph yn parhau. Rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Awst 2024, rydym ni wedi talu mwy na £31m o'r gronfa iawndal, gan adennill £30.5m o gyfrifon Metamorph.

Nifer yr ymriadau Cyfanswm taliadau'r gronfa iawndal

2016/17	50	£15.2m
2017/18	33	£18.1m
2018/19	37	£7.5m
2019/20	40	£10.2m
2020/21	26	£27m
2021/22	25	£15m
2022/23	65	£41m

Sylwch fod cyfanswm taliadau'r gronfa iawndal ar gyfer 2019/20, 2020/21 a 2021/22 ychydig yn wahanol i'r hyn rydym wedi'i nodi mewn blynyddoedd blaenorol (heb elw o ddim mwy na £200,000). Felly, mae'r ffigurau'n adlewyrchu'r cyfrifon cyhoeddus (lle'r oedd y ffigurau blaenorol yn seiliedig ar grantiau a gafodd eu cymeradwyo yn hytrach na'u talu yn ystod y flwyddyn ariannol).

Hanes hawliadau'r gronfa iawndal

Bydd nifer yr hawliadau a wneir a'r rhai sy'n arwain at daliad yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, fel nifer yr ymriadau a wneir, nifer y cwmnïau cyfreithiol yr effeithir arnynt ac a ydym yn gallu gwneud taliad.

Mae'r Gronfa yn gyllidwr dewisol pan fetha popeth arall. Dim ond os yw hawliad yn dod o fewn [ein rheolau](https://higher-rights.sra.org.uk/solicitors/standards-regulations/compensation-fund-rules/#:~:text=The%20Fund%20is%20a%20discretionary,making%20a%20grant%20are%20satisfied.1) (<https://higher-rights.sra.org.uk/solicitors/standards-regulations/compensation-fund-rules/#:~:text=The%20Fund%20is%20a%20discretionary,making%20a%20grant%20are%20satisfied.1>) y gallwn wneud taliadau. Dyma enghreifftiau o amgylchiadau lle byddem yn gwrthod hawliad:

- dylai gael ei drin gan yswiriwr y cwmni
- yn deillio o fusnes sydd â throsiant o £2m neu fwy y flwyddyn
- ar gyfer colledion sy'n deillio o weithgarwch nad yw'n rhan o fusnes arferol cyfreithiwr
- yn cael ei wneud y tu allan i'r terfyn amser
- yn codi o'r ffaith nad yw'r cleient yn cymryd gofal priodol o'i arian.

Hanes hawliadau'r gronfa iawndal - niferoedd allweddol

Nid yw pob hawliad sy'n cael ei wneud a'i gau yn cael ei drin o fewn yr un cyfnod o 12 mis. Dyma pam, mewn rhai blynyddoedd, cafodd mwy o hawliadau eu cau o'i gymharu â'r rhai a gafodd eu creu.

Y taliad mwyaf a wnaed yn 2022/23 oedd £1.2m. Roedd unigolyn wedi buddsoddi rhan o'i gronfa bensiwn mewn eiddo, ac roedd y cyfreithiwr wedi rhoi'r arian i drydydd parti. Cafwyd bod y cyfreithiwr wedi gweithredu'n anonest. Rydym wedi adennill cyfran o'r arian, gyda gwaith yn mynd rhagddo i adennill y gweddill.

	Hawliadau a wnaed	Hawliadau wedi'u cau	Hawliadau sy'n arwain at daliad	Gwerth cyfartalog hawliad llwyddiannus yn fras
2016/17	2,174	1,710	680	£22,000
2017/18	2,648	3,217	1,553	£12,000
2018/19	1,425	1,553	488	£15,000
2019/20	1,120	1,146	367	£28,000
2020/21	1,311	1,286	655	£41,000
2021/22	1,209	1,409	710	£22,000
2022/23	2,506	2,043	1,102	£37,000

Sylwch, oherwydd gwall data, ein bod yn flaenorol wedi cam-adrodd gwerth cyfartalog hawliad llwyddiannus yn fras ar gyfer 2020/21 a 2021/22. Mae'r ffigurau a ddangosir nawr yn gywir.

Y gronfa iawndal - y tri phrif reswm pam ein bod wedi gwneud taliadau

Mae'r rhesymau mwyaf cyffredin dros wneud taliadau yn ymwneud â meysydd ymarfer lle mae trafodion ariannol mawr yn digwydd, fel trawsgludo a phroffiant. Mae'r rhesymau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y tabl hwn:

1	2	3
2016/17 Enillion ar werthiannau – £4.5m	Profiant – £3.3m	Dychwelyd blaendal – £2.6m
2017/18 Profiant – £5.3m	Twyll trawsgludo – £3.7m	Enillion ar werthiannau – £2.8m
2018/19 Profiant – £2.7m	Twyll morgais – £0.9m	Dwyn arian cleient – £0.8m



2019/20	Enillion ar werthiannau – £2.9m	Dychwelyd blaendal – £2.7m	Profiant – £2m
2020/21	Profiant – £5.6m	Blaendal - £1.7m	Enillion ar werthiannau – £0.9m
2021/22	Profiant – £7.8m	Enillion ar werthiannau – £1.4m	Blaendal – £1.4m
2022/23	Profiant – £23.1m	Enillion ar werthiannau – £6.1m	Blaendal - £6m

Adolygiad o ddiogelu defnyddwyr

Dros y degawd diwethaf, mae ein dull o ddiogelu defnyddwyr wedi gweithio'n dda ar y cyfan.

Ond mae'n ymddangos bod y dirwedd gyfreithiol yn newid. Yn ddiweddar, rydym wedi gorfod camu i mewn yn amlach i ddelio â chwmnïau sy'n methu. Mae hyn yn cynnwys cynnydd diweddar mewn methiannau cwmnïau mawr, lle mae maint yr effaith ar ddefnyddwyr yn llawer mwy.

Gallai newid mewn risgiau arwain at niwed sylweddol i ddefnyddwyr, felly rydym yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o ddiogelu defnyddwyr.

Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar ddau brif faes:

- Rheoli risgiau: beth allwn ei wneud i leihau'r risg bod defnyddwyr yn dioddef niwed yn y lle cyntaf. Er enghraifft, a allwn wella ein prosesau monitro, neu a fyddai manteision o dynhau ein rheolau ynghylch cwmnïau'n dal arian cleientiaid?
- Y rhwyd ddiogelwch: gall ein cronfa iawndal wneud iawn am golledion i ddefnyddwyr pan fydd arian ar goll. Gallai hyn fod, er enghraifft, oherwydd anonestrwydd cyfreithiwr neu fethiant cwmni. Pa mor fforddiadwy fydd amddiffyniadau o'r fath dros y tymor hir os yw'r risgiau'n cynyddu?

Yn dilyn ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid ynghylch y materion hyn, [fe wnaethom lansio ymgynghoriad](https://higher-rights.sra.org.uk/sra/news/press/client-money-consultation-october-2024/) ynghylch newidiadau posibl o ran sut a phryd mae cwmnïau cyfreithiol yn delio ag arian cleientiaid, a sut mae'r arian hwn yn cael ei ddiogelu.

[Mae rhagor o wybodaeth am ein hadolygiad o ddiogelu defnyddwyr ar gael.](https://higher-rights.sra.org.uk/sra/consultations/discussion-papers/consumer-protection-review/) (<https://higher-rights.sra.org.uk/sra/consultations/discussion-papers/consumer-protection-review/>)

Adennill costau

Rydym yn ceisio adennill y costau o gynnal ymyriad mewn cwmni rydym yn ei reoleiddio. Mae hyn yn cynnwys:

- costau defnyddio cwmni cyfreithiol allanol i'n helpu i gynnal ymyriad
- unrhyw daliadau a wnawn o'r gronfa iawndal
- unrhyw gostau llys ac ymchwiliad mewnol gan y cwmni dan sylw.

Daw ein cyllid gan y cwmnïau cyfreithiol a'r cyfreithwyr rydym yn eu rheoleiddio, felly mae adennill costau'n bwysig oherwydd, yn y pen draw, mae'n debygol y bydd ein costau'n cael eu trosglwyddo i'r cyhoedd sy'n prynu gwasanaethau cyfreithiol.

Byddwn yn ystyried pob llwybr wrth adennill costau, gan gynnwys cymryd camau yn erbyn y cyfreithwyr neu'r rheolwyr a oedd yn destun ymyriad, yswiriwr y cwmni ac, mewn rhai achosion, cyn bartneriaid a chyfarwyddwyr y cwmni.

Mae'r tabl yn dangos adennillion cyfunol costau ymyriad a thaliadau'r gronfa iawndal dros y saith mlynedd diwethaf. Ar gyfartaledd, rydym wedi adennill tua £2.6m y flwyddyn.

Year Payments

2016/17	£3.5m
2017/18	£4.7m
2018/19	£2.5m
2019/20	£2.9m
2020/21	£1.1m
2021/22	£2.1m
2022/23	£1.1m

Rhagor o wybodaeth

[Gwneud hawliad i'r gronfa iawndal](https://higher-rights.sra.org.uk/consumers/problems/solicitor-owes-money/) (<https://higher-rights.sra.org.uk/consumers/problems/solicitor-owes-money/>)

[Canllawiau – Sut rydym ni'n ymdrin â phenderfyniadau i gynnal ymyriad](https://higher-rights.sra.org.uk/solicitors/guidance/consumer-intervening-protect-clients/) (<https://higher-rights.sra.org.uk/solicitors/guidance/consumer-intervening-protect-clients/>)

[Egwyddorion lefel cyfraniadau'r gronfa iawndal](https://higher-rights.sra.org.uk/mysra/fees/compensation-fund-contribution-level-principles/#:~:text=The%20principles,-Principle%20one%20%2D%20The&text=The%20Compensation%20Fund%20is%20a%20key%20consumer%20protection%20for%20people,) (<https://higher-rights.sra.org.uk/mysra/fees/compensation-fund-contribution-level-principles/#:~:text=The%20principles,-Principle%20one%20%2D%20The&text=The%20Compensation%20Fund%20is%20a%20key%20consumer%20protection%20for%20people,>)

[Strategaeth gorfforaethol yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr 2023 i 2026](https://higher-rights.sra.org.uk/sra/consultations/consultation-listing/corporate-strategy-2023-26/) (<https://higher-rights.sra.org.uk/sra/consultations/consultation-listing/corporate-strategy-2023-26/>)